# Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus – Crynodeb

Roedd holiadur yr ymgynghoriad yn fyw ar wefan Cyngor Gwynedd o 8fed o Rhagfyr 2022 hyd at 3ydd Ionawr 2023.

Cafwyd 643 o ymatebion i'r holiadur, i gyd wedi'u derbyn ar-lein. Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

| Ardal | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arfon | 282 | 43.9% |
| Dwyfor | 137 | 21.3% |
| Meirionnydd | 203 | 31.6% |
| Tu allan i Wynedd | 9 | 1.4% |
| Dim ateb | 12 | 1.9% |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0%** |

**Meysydd Blaenoriaeth**:
Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr ymatebwyr yn **cytuno â'r meysydd blaenoriaeth i gyd**, ond roedd llai (66.9%, N=430) o'r ymatebwyr yn cytuno â maes blaenoriaeth 5 sef sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg o gymharu a phob maes blaenoriaeth arall.

| | Cytuno | | Anghytuno | | Dim barn | | Dim ateb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | 587 | 91.3 | 7 | 1.1 | 41 | 6.4 | 8 | 1.2 |
| Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | 597 | 92.8 | 9 | 1.4 | 25 | 3.9 | 12 | 1.9 |
| Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau | 547 | 85.1 | 23 | 3.6 | 61 | 9.5 | 12 | 1.9 |
| Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | 571 | 88.8 | 16 | 2.5 | 44 | 6.8 | 12 | 1.9 |
| Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg | 430 | 66.9 | 78 | 12.1 | 123 | 19.1 | 12 | 1.9 |
| Hybu amgylchedd gynaliadwy ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng hinsawdd | 530 | 82.4 | 41 | 6.4 | 64 | 10.0 | 8 | 1.2 |
| Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol | 557 | 86.6 | 27 | 4.2 | 48 | 7.5 | 11 | 1.7 |


**Gwahaniaethau rhwng ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd:**
Mae gwahaniaethau ym marn ymatebwyr yn ôl lle maent yn byw. Y gwahaniaeth mwyaf yw fod canran uwch o ymatebwyr sy'n byw yn Arfon (75.5%, N=213) yn **cytuno** â maes blaenoriaeth 5 o gymharu â ymatebwyr sy'n byw yn Dwyfor (62.0%, N=85) a Meirionnydd (60.1%, N=122). Y gwahaniaeth mwyaf yw fod canran uwch o'r ymatebwyr sy'n byw yn Dwyfor (16.8%, N=23) yn **anghytuno** â maes blaenoriaeth 5 o gymharu â ymatebwyr sy'n byw yn Arfon (8.2%, N=23) a Meirionnydd (14.8%, N=30).

**Sylwadau:**
Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 72% (N=464) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 179 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno gyda sicrhau tegwch i bawb / Cwestiynau am beth yw 'natural Welsh' a pryderon fod pobl di-Gymraeg ddim am gael eu trin yn gyfartal | 39 | 21.9 |
| Ddim yn gallu anghytuno efo'r rhestr o blaenoriaethau | 26 | 14.6 |
| Angen canolbwyntio ar yr economi a swyddi o safon | 22 | 12.4 |
| Blaenoriaeth i bobl lleol gyda tai / Gwella ansawdd tai | 17 | 9.6 |
| Angen mwy o wybodaeth am y prosiectau / Pryderon nad oes arian i wireddu y prosiectau | 15 | 8.4 |
| Beirniadu safon yr ymgynghoriad | 11 | 6.2 |
| Anghytuno gyda canolbwyntio ar y iaith Gymraeg | 10 | 5.6 |
| Angen edrych ar ôl y diwydiant twristiaeth / Ehangu y tymor twristiaeth | 9 | 5.1 |

<u>**Maes Blaenoriaeth 1 – Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc**</u>

Prosiect 1 – Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
Prosiect 2 – Cinio ysgol am ddim
Prosiect 3 – Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu
Prosiect 4 – Lleihau'r gost o anfon plant i'r ysgol a heriau llesiant
Prosiect 5 – Uwchraddio Meysydd Chwarae Plant y sir




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 75.9% (N=488) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 155 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am grynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

| **Thema** | **Nifer** |
|---|---|
| Angen creu mwy o swyddi yn yr ardal / Cefnogi meysydd sy'n creu gwaith yn yr sir (fel Twristiaeth) / Peidio trethu twristiaeth / Cefnogi'r diwydiant twristiaeth | 23 |
| Cinio ysgol am ddim - Cinio ysgol am ddim mond i'r rhai sydd ei angen / eisiau, ddim i bawb | 18 |
| Sylw Amherthnasol | 15 |
| Cefnogi busnesau / Canol Trefi angen eu adfywio / Cyfathrebu efo siroedd eraill am syniadau ar sut i adfywio canol trefi / Angen gwella sut rydym yn delio gyda'r economi | 15 |

**<u>Maes Blaenoriaeth 2 – Cryfhau'r economi a chefnogi pobl Gwynedd i ennill cyflogau teilwng</u>**

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy
Prosiect 2 – Adfywio cymunedau a chanol trefi
Prosiect 3 – Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith
Prosiect 4 – Cadw'r Budd yn Lleol




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 76.2% (N=490) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 153 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am grynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.


| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Adfywio cymunedau a chanol trefi - Nodi syniadau i wella ardal Bangor neu nodi problemau ym Mangor | 11 | 7.2 |
| Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith - Angen gwell cyfleoedd gyrfa a/neu cyflog i bobl lleol | 9 | 5.9 |

**<u>Maes Blaenoriaeth 3 – Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau</u>**

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol
Prosiect 2 – Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd
Prosiect 3 – Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
Prosiect 4 – Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Gweler o'r graff isod fod canran uwch o'r ymatebwyr (24.9%, N=160) yn anghytuno hefo prosiect 4 o gymharu a prosiectau eraill o fewn y maes blaenoriaeth yma.




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 62.5% (N=402) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 241 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Sylw amherthnasol i'r blaenoriaethau neu aneglur | 19 | 7.9 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - llety gwyliau yn bwysig neu ni ddylai llety gwyliau gael eu cosbi | 19 | 7.9 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - angen mesuriadau i reoli hyn ee nifer cyfyngedig o Air BnB mewn ardal, trethi ail dai | 18 | 7.5 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - ni ddylai ail dai gael eu cosbi, ail dai yn bwysig | 16 | 6.6 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - Twristiaeth yn bwysig yn economaidd | 16 | 6.6 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - anghytuno neu'n ansicr o gyda codi treth cyngor i ail dai | 15 | 6.2 |
| Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol - Angen gwneud defnydd o'r stoc tai presennol ee tai gwag | 14 | 5.8 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - ail dai neu llety gwyliau yn broblem/sefyllfa fwy 'nuanced' na mae'r ddogfen yma yn awgrymu neu mae angen eithriadau neu camau rheoledig | 13 | 5.4 |
| Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol - Angen mwy o dai cymdeithasol / cyngor / fforddiadwy | 10 | 4.1 |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - angen cynyddu treth ail dai | 9 | 3.7 |

**<u>Maes Blaenoriaeth 4 – Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau</u>**

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol
Prosiect 2 – Ail ddylunio ein gwasanaethau gofal
Prosiect 3 – Cefnogi llesiant pobl
Prosiect 4 – Cynllun Awtistiaeth
Prosiect 5 – Sefydlu cartrefi lleol i'n plant




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 83.7% (N=538) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 105 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cynllun Awtistiaeth - Diffyg gofal i Awtistiaeth mewn ysgolion (a chymuned yn gyffredinol hefyd) | 15 | 14.3 |
| Dim cyllideb digonol i wireddu hyn / Ddim yn credu y bod modd gwireddu y prosiectau | 14 | 13.3 |
| Cytuno gyda'r prosiectau i gyd | 10 | 9.5 |
| Ail ddylunio ein Gwasanaethau Gofal - Cyngor a BCUHB angen cyd-weithio / integreiddio yn well | 10 | 9.5 |
| Ail ddylunio ein Gwasanaethau Gofal - Dylid sicrhau fod arian ar yn cael ei wario ym mhob rhan o Wynedd ar y prosiect | 9 | 8.6 |
| Cefnogi Llesiant Pobl - angen gweithio gyda cymunedau i sicrhau lles trigolion | 8 | 7.6 |

**<u>Maes Blaenoriaeth 5 – Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg</u>**

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
Prosiect 2 – Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 73.4% (N=472) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 171 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Helpu oedolion ddysgu - Angen mentrau, dosbarthiadau ar-lein, dosbarthiadau ar amseroedd cyfleus neu am ddim neu wybodaeth am dafodiaith leol i helpu oedolion di-Gymraeg i ddod yn gyfarwydd a dysgu Cymraeg | 22 | 12.9 |
| Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Pwysig i amddiffyn, dysgu a/neu hybu yr iaith | 10 | 5.8 |
| Cytuno gyda'r blaenoriaethau yma a/neu yr iaith yn bwysig | 8 | 4.7 |
| Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Dylai hyn ddim fod yn anfantais i bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg | 8 | 4.7 |

**<u>Maes Blaenoriaeth 6 – Hybu amgylchedd cynaliadwy ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd</u>**

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Gweithredu ar risgiau llifogydd
Prosiect 2 – Cynllun gwastraff ac ailgylchu
Prosiect 3 – Cynllun argyfwng hinsawdd a natur
Prosiect 4 – Teithio llesol
Prosiect 5 – Trafnidiaeth Gyhoeddus
Prosiect 6 – Cynllun Datblygu Lleol newydd
Prosiect 7 – Cymunedau Glân a Thaclus



Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 73.1% (N=470) o’r ymatebwyr unrhyw sylwadau i’w ychwanegu. O’r 173 o’r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o’r sylwadau mwyaf poblogaidd.


| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth Gyhoeddus - byddai gallu defnyddio bws i fynd i/o gwaith/siopa/meddyg yn wyrthiol yn enwedig mewn rhannau gwledig o'r sir | 26 | 15.0 |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus - angen gwella'r rhwydwaith bysiau / trenau | 20 | 11.6 |
| Cymunedau Glân a Thaclus - angen addysgu trigolion o sut i waredu eu gwastraff yn gyfrifol | 19 | 11.0 |
| Teithio llesol - dylid hybu mwy o bobl i feicio i wella eu hiechyd / gwell marchnata o teithio llesol | 15 | 8.7 |
| Teithio llesol - angen meddwl am hyn yn ofalus iawn - gall fod yn gostus iawn heb lawer o fudd i fwyafrif o gymunedau Gwynedd | 13 | 7.5 |
| Cytuno gyda'r prosiectau yma i gyd | 9 | 5.2 |
| Gormod o brosiectau yma gyda'r gyllideb sydd ar gael | 9 | 5.2 |

**Maes Blaenoriaeth 7 – Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cygnor yn perfformio’n dda ac yn effeithiol**

Dyma’r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Cynllunio’r gweithlu
Prosiect 2 – Datblygu diwylliant y Cyngor
Prosiect 3 – Sicrhau tegwch i bawb
Prosiect 4 – Merched mewn arweinyddiaeth
Prosiect 5 – Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
Prosiect 6 – Cynllun digidol
Prosiect 7 – Adolygiad strategol ar reolaeth iechyd a diogelwch
Prosiect 8 – Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

Gweler o’r graff isod bod ar y cyfan mae canran uwch o’r ymatebwyr yn nodi dim barn / ddim wedi ateb y cwestiwn ar draws pob prosiect o fewn maes blaenoriaeth 7 i gymharu â meysydd prosiectau eraill.




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 78.5% (N=505) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 183 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Merched Mewn Arweinyddiaeth - Anghytuno gyda hwn - y person gorau i'r swydd ydi'r ateb/hyn yn wahaniaethol | 29 | 20.9 |
| Cynllun Digidol - Angen rhyw fath o hwb ble gall pobl ddod i drafod materion wyneb yn wyneb ym mhob ardal o Wynedd | 13 | 9.4 |
| Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol - Dylid cael pob aelod o staff yn ôl i weithio yn y swyddfeydd | 10 | 7.2 |